

# Rhyddhau'r farchnad wedi peryglu 'bargen' ein hawddfyd

**Yr Athro Gareth Wyn Jones yn disgrifio  
bargen economaidd sy'n ein gosod ar  
ffordd beryglus.**

ER i John Maynard Keynes amlinellu ein bargen Ffawstaidd o goleddu 'trachwant' yn bris am 'olud', dw i'n credu bod gwaith economegydd arall, John Kenneth Galbraith, yn fwy dadlennol a pherthnasol i'n picil anghynnaladwy.

Ar ddiwedd y 1950au cyhoeddodd lyfr, enwog iawn yn ei ddydd, **The Affluent Society**, sy'n ceisio deall y gyfundrefn a alluogodd ffyniant cymdeithasau'r Gorllewin.

Yn ôl Galbraith mae parhad ein hawddfyd - ar ôl bodloni ein hanghenion sylfaenol fel cartref, bwyd, diod etc - yn dibynnu ar 'fargen' rhwng tair carfan: ni, y cyhoedd; diwydianwyr a phobol fusnes; llywodraethau a'r elit gwleidyddol.

Yn fras, rydan ni eisio gweld arian yn ein pocedi, yn dymuno gwell byd i'n plant ac eisiau statws cymdeithasol uwch i ni ein hunain. Mae hyn yn dibynnu, yn ei dro, ar fod gynnon ni fodd i brynu nwyddau a gwasanaethau trwy ein cyflogau a'n benthyciadau.

Yn eu tro wedyn mae busnesau yn gwneud eu harian a'u helw trwy gwrdd â'n dyheadau a thrwy greu dyheadau newydd. Felly mae pwysau arnon ni i wario. Mae'r sector cyhoeddus hefyd yn creu gwaith a gwario o bwrs y wlad.

## Y 'FARGEN' YN DIBYNNU AR FENTHYCIADAU A DYLED

Os am gael eu hethol neu aros mewn grym, rhaid i'r Llywodraeth (gwleidyddion) sicrhau parhad y fargen – fel y dywedodd Clinton *'it's the economy stupid'*.

Felly, mae'r gyfundrefn fel olwyn, gyda thair prif 'sbocsen', sy'n gorfod troi yn gyson i fod yn sad.

Er mwyn i'r gyfundrefn weithio, rhaid i'r cyhoedd brynu a gwario, rhaid i fusnesau gynhyrchu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau (a'n temtio a chreu galw am bethau newydd deniadol – fel gwyliau yn yr haul neu declynnau newydd). Swyddogaeth llywodraeth yw cadw'r olwyn yn troi a chyflenwi anghenion nad yw'r sector preifat yn eu cyflawni.

Sylweddolodd Galbraith bod y 'fargen' yn dibynnu yn helaeth ar fenthyciadau a dyled.

Enghraifft syml fyddai prynu car ar yr HP neu dŷ gyda morgais neu nwyddau gyda cherdyn credid. Mae pobol fusnes yn benthycu i fuddsoddi ac i dyfu eu busnesau ac mae llywodraethau'n benthycu i dalu am eu holl weithgareddau.

Pwysleisiodd Galbraith sawl peth cwbl hanfodol. Yn gyntaf mae'r broses o iro'r olwyn trwy ddyled - sef twf economaidd - yn rhoi grym anferthol yn nwylo'r bancwyr a'r farchnad arian.

Yn ail, bod tuedd naturiol i anwybyddu problem dyled ac, o ganlyniad, mae'r gyfundrefn yn ansefydlogi, yn gorboethi a gorymestyn.

## OS YDY'R 'OLWYN' YN STOPIO — MAE'R 'FARGEN' YN CHWALU

Roedd yn rhagweld y byddai cyfoeth yn cronni mewn ychydig o ddwylo a bod tuedd i olud preifat gyd-fyw gyda bryntni cyhoeddus.

Roedd Galbraith o'r farn bod rhaid rheoli'r drefn yn ofalus iawn. Ond doedd neb yn gwrando! Ers diwedd y 1970au y gri oedd "rhyddhau'r farchnad" ac wele'r canlyniadau!

Mae sefydlogrwydd 'Bargen Galbraith' yn dibynnu ar dwf economaidd diddiwedd a hwnnw'n cael ei fesur, fel rheol, gan GDP.

Felly, mae'n werth ailadrodd y ffigurau – os ydi GPD yn tyfu 10% y flwyddyn [fel China yn ddiweddar] mae'n dyblu pob saith mlynedd; os yw'n tyfu 2% fel yr oedd ym Mhrydain tan yn ddiweddar, mae'n dyblu pob 35 mlynedd.

Mae hyn oll yn dibynnu ar adnoddau naturiol, olew, mwynau etc ac yn gosod pwysau trwm ar ein hamgylched. Os ydi'r olwyn yn stopio fel yng Ngwlad Groeg neu Sbaen, mae bargen Galbraith yn chwalu gydag effeithiau trist iawn.



Gwario — ein rhan ni yn y 'fargen'. Hysbysebion Efrog Newydd. Llun: YPG

[Mai 2, 2013]